Bwrdd Dinas Wrecsam Polisi Gwrthdaro Buddiannau f2 2025

**1. Gwrthdaro Buddiannau**

Bydd disgwyl i aelodau Bwrdd Dinas Wrecsam ddatgan unrhyw fuddiant ariannol (busnes) neu anariannol (personol) sydd ganddynt yn unrhyw eitem busnes Bwrdd Dinas Wrecsam ac efallai y bydd gofyn iddynt beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau am y cyntaf, yn unol ag arferion ac ymarfer y sector cyhoeddus.

Bydd methu â datgan buddiannau yn briodol yn sail i waharddiad o Fwrdd Dinas Wrecsam.

Ar gais, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu cyngor ac arweiniad i aelodau Bwrdd Dinas Wrecsam ar y materion hyn.

Rhaid i aelodau Bwrdd Dinas Wrecsam wedyn gwblhau Datganiad o Fuddiannau, y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ei gadw wedyn. Gall hyn fod mewn fformat y mae'r awdurdod lleol eisoes yn ei ddefnyddio.

Mae aelodau Bwrdd Dinas Wrecsam yn gyfrifol am ddatgan eu buddiannau cyn i Fwrdd Dinas Wrecsam ystyried unrhyw benderfyniadau.

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gofnodi:

- Camau a roddwyd ar waith mewn ymateb i unrhyw fuddiant datganedig
- unrhyw anrhegion neu letygarwch a roddir i Fwrdd Dinas Wrecsam neu aelodau unigol yn eu rôl fel aelodau o Fwrdd Dinas Wrecsam.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU